# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
**PAC(4) 04-11 – Papur 1**

**Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar lywodraethiant ac atebolrwydd Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Diben**

1. Estynnir gwahoddiad i Aelodau gytuno ar gynnig i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried materion llywodraethiant ac atebolrwydd mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Bydd yn ofynnol i'r Grŵp:

- Ystyried cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC);
- Ystyried amcangyfrif blynyddol ACC ac adrodd yn ei gylch i'r prif Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus;
- Cynghori'r Cynulliad ynghylch penodi archwilwyr i edrych ar gyfrifon ACC;
- Ystyried materion llywodraethiant ac atebolrwydd eraill sy'n ymddangos mewn perthynas ag ACC;
- Ystyried materion sy'n ymwneud ag enwebu unigolion i'w penodi i swydd ACC.

2. O gofio natur ei gylch gwaith, byddai angen i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyfarfod yn ffurfiol yn gyhoeddus (oni bai bod y Pwyllgor yn penderfynu mewn sesiwn ffurfiol i gwrdd yn breifat). Byddai'n rhaid cyflwyno unrhyw waith y bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ei wneud i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus llawn i'w gymeradwyo. Cynhelir cyfarfod cyntaf y grŵp ar 11 Hydref i ystyried amcangyfrif ACC o incwm a threuliau ar gyfer 2012/13.

3. Dyma'r cynnig drafft i sefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ffurfiol:

**Cynnig drafft i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar lywodraethiant ac atebolrwydd Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Reol Sefydlog 17.17.**

*Bod y pwyllgor yn penderfynu sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ystyried materion llywodraethiant ac atebolrwydd mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC);*
*Mai cylch gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fydd cynghori'r Cynulliad ynghylch penodi archwilwyr i edrych ar gyfrifon ACC; ystyried amcangyfrif a chyfrifon blynyddol ACC; ystyried materion sy'n ymwneud â llywodraethiant ac atebolrwydd ACC; ystyried materion sy'n ymwneud ag enwebu unigolion i swydd ACC; ystyried materion eraill a drosglwyddir iddo gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.*

*Mai hyd cyfnod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fydd blwyddyn Cynulliad 2011/2012 ac y bydd yn dod i ben ar 20 Gorffennaf 2012.*

*Bod aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys (Darren Millar AC), (Mike Hedges AC), (Aled Roberts AC), a (Leanne Wood AC), a bod (Darren Millar) wedi'i ethol yn Gadeirydd.*

**Camau i'r Pwyllgor eu cymryd:**

Estynnir gwahoddiad i'r Pwyllgor gytuno ar y cynnig drafft i sefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.